Grantiau'r Celfyddydau i Sefydliadau

# Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol

Cyngor Celfyddydau Cymru | Tachwedd 2018

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Arwyddeg Prydain, Hawdd eu Darllen ac ar awdio. Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Gweithredwn Bolisi Cyfle Cyfartal.

# Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol

## Pwrpas

Datblygu sgiliau, hyfedredd a galluoedd y bobl sy'n gweithio ym myd y celfyddydau yng Nghymru.

## Beth rydyn ni am ei gyflawni

Rydyn ni am feithrin amgylchedd cefnogol lle gall unigolion creadigol proffesiynol greu'r gwaith gorau posibl, ac rydyn ni am i'n sefydliadau celfyddydol gymryd y blaen wrth ddarparu cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau creadigol, technegol a busnes, trwy hyfforddiant a mathau eraill o ddatblygiad proffesiynol.

Rydyn ni am helpu i feithrin modelau busnes newydd a chadarnach ar gyfer sefydliadau'r celfyddydau, cwmnïau, canolfannau ac orielau – ac rydyn ni'n disgwyl i'r sefydliadau rydyn ni'n eu hariannu ddangos arweinyddiaeth a llywodraethu effeithiol. Rydyn ni am gynorthwyo cyfleoedd am hyfforddiant a datblygiad proffesiynol sy'n datblygu sgiliau a gwybodaeth eich gweithlu, ac yn cyfrannu at ddatblygiad eich sefydliad. Rydyn ni'n credu y bydd y buddsoddiad hwn mewn pobl yn helpu i gyflunio dyfodol ein sefydliadau allweddol ym maes y celfyddydau, gan eu gwneud yn fwy gwydn a chadarn.

Rydyn ni am gynorthwyo prosiectau sy'n galluogi unigolion creadigol proffesiynol i ddatblygu eu sgiliau creadigol a thechnegol er mwyn codi ansawdd eu gwaith artistig. Rydyn ni am gynorthwyo prosiectau sy'n buddsoddi yn staff neu gorff lywodraethol eich sefydliad hefyd er mwyn gwella eich dulliau o lywodraethu a mentro, eich rheolaeth ar gyllid a chynaliadwyedd eich busnes.

Gall prosiectau gynnwys mynychu cwrs hyfforddi sy'n gydnabyddedig o fewn y diwydiant, mynychu dosbarth meistr, cymryd rhan mewn set dysgu ar waith, neu roi cynnig ar hyfforddi, mentora neu ddarparu prentisiaethau.

Rydyn ni'n arbennig o awyddus i gefnogi mathau penodol o brosiectau. Mae hyn yn golygu, pan fydd angen i ni ddewis rhwng prosiectau cymwys o safon debyg, byddwn ni'n blaenoriaethu'r canlynol:

- Prosiectau sy'n datblygu ac yn gwella gwaith ym maes cyfarwyddo, coreograffi, curadu, rhaglennu a sgiliau ysgrifennu beirniadol

- Prosiectau sy'n datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i weithio gyda phlant a phobl ifanc

- Prosiectau sy'n datblygu ac yn gwella gwybodaeth a sgiliau pobl sydd eisoes yn gweithio'n broffesiynol ym maes y celfyddydau ar gyfer lleoliadau iechyd a lles, a

hynny er mwyn cyfoethogi eu datblygiad, a chyflwyno prosiectau'r celfyddydau ar gyfer iechyd a lles

- Prosiectau sy'n ymestyn ac yn dwysáu gwybodaeth a dealltwriaeth am amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant
- Prosiectau sy'n datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i weithio yn y bau gyhoeddus
- Prosiectau sy'n datblygu ac yn gwella sgiliau busnes a rheoli (gan gynnwys cynllunio busnes, codi arian, marchnata a chyrsiau byrion Rhaglenni Arwain Clore)
- Prosiectau sy'n datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i hyrwyddo gwaith artistig gwreiddiol yn fasnachol yn well
- Prosiectau sy'n datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i integreiddio technolegau newydd i ddulliau sefydliad o weithio, neu i arferion artistig unigolyn creadigol proffesiynol

## Prosiectau na fyddwn yn eu cynorthwyo

Ni fyddwn ni'n cynorthwyo cyrsiau llawn-amser neu ran-amser ar gyfer israddedigion nac ôl-raddedigion mewn sefydliadau addysg bellach neu addysg uwch. Ni fyddwn yn ariannu tiwtora, gwersi na hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer unigolion chwaith.

## Beth fydd ei hangen gennych chi

Rhaid i brosiectau sydd wedi eu cynllunio i **ddarparu** cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad ar gyfer unigolion creadigol proffesiynol neu sefydliadau celfyddydol eraill yng Nghymru ddangos yn glir y canlyniadau a ddisgwylir ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan. Byddwn ni'n disgwyl i'r rhain ganolbwyntio ar ddatblygu'r gweithlu a'r sefydliad.

Os ydych chi'n cyflwyno cais i **gyrchu** cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad, rhaid i chi ddangos sut y bydd hyn yn datblygu gwybodaeth a sgiliau eich gweithlu, ac yn cyfrannu at ddatblygiad eich sefydliad. Byddwn ni'n ystyried ariannu hyfforddiant neu gyfleoedd datblygu y tu allan i Gymru os nad oes cyfle o'r fath ar gael yma.

Mae rhagor o wybodaeth yn ein Nodiadau Cymorth ar gyfer ceisiadau ym maes Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol, a bydd hyn yn eich cynorthwyo i lenwi'ch ffurflen gais.

## Pwy gaiff wneud cais

Byddwn ni'n croesawu ceisiadau gan sefydliadau celfyddydol proffesiynol, canolfannau, orielau a chwmnïau. Gallwch wirio a ydych chi'n gymwys i wneud cais trwy ddarllen ein dogfen Cychwyn Arni.

## Y Cyllid sydd ar gael

Cewch wneud cais am hyd at **75%** o gyfanswm costau cymwys eich prosiect. Gellir cyflwyno ceisiadau ar y lefelau canlynol:

- Grantiau bach rhwng £250 a £5,000
- Grantiau mawr rhwng £5,001 a £30,000

## Pryd cewch wneud cais

Dylech gyflwyno'ch cais mor fuan ag sy'n bosibl.

### Grantiau Bach

Nid oes dyddiad cau ar gyfer grantiau bach, ond bydd angen i chi ganiatáu o leiaf **chwech wythnos gwaith** rhwng dyddiad cyflwyno'r cais a'r dyddiad pan rydych am ddechrau eich prosiect. **Os ydych chi'n cyflwyno'ch cais cyntaf i ni, yna rhaid i chi wneud cais ar y lefel hon.**

**Bydd ein rhaglen Grantiau Bach yn cau dros-dro tra ein bod yn adolygu sut yr ydym yn dosbarthu arian Loteri. Y dyddiad olaf byddwn yn derbyn ceisiadau Grantiau Bach fydd Dydd Mercher, 10fed o Orffennaf 2019 am 5pm. Caiff benderfyniadau eu cyfathrebu erbyn Dydd Mercher 31ain o Orffennaf 2019.**

### Grantiau Mawr

Dyma'r dyddiadau cau nesaf ar gyfer ceisiadau am grantiau mawr:

- 5pm Dydd Mercher 23ain Ionawr 2019
- 5pm Dydd Mercher 8fed Mai 2019

Bydd angen i chi ganiatáu o leiaf naw wythnos gwaith rhwng y dyddiad cau a'r dyddiad pan rydych am ddechrau eich prosiect.

## Pa mor aml y cewch wneud cais

Gallwch ddal un "grant byw" o'r maes gwaith hwn a maes gwaith arall o dan *Grantiau'r Celfyddydau ar gyfer Sefydliadau* mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis. Rydyn ni'n defnyddio'r ymadrodd "grant byw" i olygu cais am brosiect a gafodd cyllid gennym ac sy'n

dal i fod ar waith. Rydyn ni'n defnyddio dyddiad dechrau'r prosiect cyntaf sy'n cael ei ariannu gennym i gyfrif y cyfnod o ddeuddeg mis.

Cysylltwch â'n Tîm Grantiau a Gwybodaeth os ydyn ni wedi rhoi grant i chi o'r blaen a'ch bod chi'n ansicr a ydych chi'n gymwys i wneud cais eto nawr.

## Sut i wneud cais

Rhaid ichi drafod eich prosiect gyda ni cyn inni anfon ffurflen gais atoch.

Os oes gennych brosiect y credwch y gallai fod yn gymwys dan y maes ariannu hwn, e-bostiwch eich syniadau prosiect i: datblygu@celf.cymru

Cofiwch gynnwys y manylion canlynol:

- eich enw
- teitl y prosiect
- disgrifiad o'ch prosiect
- faint o arian sydd arnoch ei angen?
- lleoliad y prosiect

Rhaid cyflwyno ceisiadau gan ddefnyddio ein system ymgeisio ar-lein.

Os na allwch gyflwyno'ch cais ar-lein, er enghraifft, os ydych chi'n anabl neu os nad oes cyfrifiadur ar gael i chi, cysylltwch â'n Tîm Grantiau a Gwybodaeth. Byddwn ni'n gweithio gyda chi i ddod o hyd i ddull eraill o wneud cais. Gallwn eich cynorthwyo hefyd os nad Cymraeg neu Saesneg yw eich iaith gyntaf.

## Oes angen rhagor o gyngor arnoch?

Mae gennym Daflenni Gwybodaeth a dogfennau canllaw i'ch helpu chi gyda gwahanol agweddau ar y broses o ymgeisio, neu i ddarparu cyngor ar faterion penodol. Mae'r rhain ar gael ar ein gwefan. Efallai y bydd y canlynol o ddefnydd wrth i chi baratoi'ch cais ar gyfer y maes gwaith Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol:

- Nodiadau Cymorth ar gyfer ceisiadau ym maes Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol
- Y Daflen Wybodaeth ar Iechyd a Lles
- Cyngor Celfyddydau Cymru Arweiniad Cydraddoldeb

Os oes gennych ragor o gwestiynau am y cais, ffoniwch ein Tîm Grantiau a Gwybodaeth ar 0845 8734 900 neu e-bostiwch: grantiau@celf.cymru